Mumbles Community Council

Minutes of Meeting of the Finance and Compliance Committee

held on 19th October 2026 at 6.30 pm

Hybrid Meeting at the Ostreme Centre & via Teams

Councillors Present: Tim Zhou (Chair), Ian Scott, Carrie Townsend Jones and Martin O'Neill.

Officers Present: Ceri Willcox – RFO and Ian Hughes – CSO

FI2610-01	**Apologies:** None
FI2610-02	**Declarations of Interest:** None
FI2610-03	**Minutes of the Previous Meeting of the Committee** To approve the minutes of the meeting held on 21st September 2026 as a true record. **RESOLVED** to approve the minutes of the meeting held on 21st September 2026 as a true record.
FI2610-04	**Outstanding Actions from Previous Meeting** Outstanding action outlined by the CSO. **RESOLVED** outstanding action updated, and new action to be recorded in 'outstanding action' report by CSO.

Mumbles Community Council

FI2610-05	**Budget Monitoring Reports – Ceri Willcox, RFO** Ceri Willcox, the recently appointed RFO provided an overview of budgets and with the permission of the committee combined budgeting for 2026/27 (**FI2610-06**) with this agenda item. The RFO set out the levels of budgets remaining together with amounts in each of the bank accounts. In anticipation of the precept being provided in December 2026, The RFO sought the views of how Councillors wished to spend budgets and how spending should be presented by The RFO. During the discussion that followed Councillors agreed that a monthly budgeting report should be provided and that any suggestions/amendments would be provided directly to The RFO. In addition Councillors proposed that further clarification should be provided in relation to grant applications and their approval. RESOLVED: The RFO to receive information from Councillors on how best to present budgeting reports at monthly committee meetings. In addition RFO to seek further clarification on issues connected to grant funding.
FI2610-06	**Budget 2026/2027** This item had been combined with the previous agenda item (**FI2610-05** refers)
FI2610-07	**Elev8 Dawns CIC Grant Application** Grant Application for £5,000 to contribute towards a Wellbeing Event The Committee were supportive of the aims contained within the application. It was noted that the score of 10 was relatively low for a successful application. In addition, whilst the time of the applicants would contribute to the project, there was no financial contribution to the event. Prior to making a recommendation on the application, Councillors requested further information in the areas set out below:- • Venue or venues for the event. • If the event is centralised what provision has been made for less abled participants to attend.

Mumbles Community Council

	• How are participants being recruitment. • Was there any involvement with the recent MCC Wellbeing Festival. • Is any future involvement with similar festivals anticipated. • How is the budget for the event being spent/breakdown of expenditure requested. **ACTION**: RFO/Deputy to request above information from applicant **RESOLVED** To defer application until such time as above queries have been addressed by applicant
- FI261008	**Shelter Cymru Grant Application** Grant Application for £500 to contribute towards helping people in need of housing The Committee noted that previous applications had been received in 1996, 2008 and 2015. Whilst the application stated that two families in Mumbles would benefit, the committee believed that there was a lack of information and a lack of detail as to how the allocated money would benefit the recipients. However, Councillors were in support of the aims contained within the application and noted the relatively low cost of the application. **RECOMMENDED** That a Grant Application to Shelter Cymru for £500 be awarded to contribute towards helping people in need of housing, provided the applicant provides feedback on how the money was spent. Failure to do so would jeopardise future funding applications. From **Budget FC1** Small and Medium Grants.
FI2610-09	**Story of Mumbles Grant Application** Grant Application for £3, 500 to contribute towards commemorating the 80th anniversary of The Samtampa Disaster During the discussion between Councillors it was noted that other awards had been approved to commemorate the 80th anniversary of The Samtampa Disaster. However, it was the consensus of the committee that commemorating the Samtampa Disaster is a significant event and that residents of MCC would expect MCC to support the application which, unlike earlier applications will support local communities, particularly schools in recognising the importance of the event.

	RECOMMENDED That a Grant Application to The Story of Mumbles for £3,500 be awarded to commemorate the 80th anniversary of The Samtampa Disaster. From **Budget FC1** Small and Medium Grants.

Meeting Finished at 7.11pm

Next meeting: 16th November 2026

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfedd a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2026 am 6.30pm

Cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams

Cynghorwyr yn bresennol: Tim Zhou (Cadeirydd), Ian Scott, Carrie Townsend Jones a Martin O'Neill.

Swyddogion yn bresennol: Ceri Willcox – Swyddog Ariannol Cyfrifol, ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

FI2610-01	**Ymddiheuriadau:** Dim

Mumbles Community Council

FI2610-02	**Datganiadau o fuddiant:** Dim
FI2610-03	**Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi 2026 fel cofnod cywir. **PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi 2026 fel cofnod gwir.
FI2610-04	**Camau gweithredu heb eu cwblhau o'r cyfarfod blaenorol** Amlinellwyd y cam gweithredu heb ei gwblhau gan y Swyddog Cymorth Pwyllgorau. **PENDERFYNWYD** diweddaru'r cam gweithredu heb ei gwblhau, a chofnodi cam gweithredu newydd yn yr adroddiad ar 'y cam gweithredu heb ei gwblhau' gan y Swyddog Cymorth Pwyllgorau.
FI2610-05	**Adroddiadau Monitro Cyllideb – Ceri Willcox, Swyddog Ariannol Cyfrifol** Rhoddodd Ceri Willcox, y Swyddog Ariannol Cyfrifol a benodwyd yn ddiweddar, drosolwg o gyllidebau, a chyda chaniatâd y pwyllgor, cyfunodd y gyllidebu ar gyfer 2026/2027 (**FI2610-06**) â'r eitem hon ar yr agenda. Nododd y Swyddog Ariannol Cyfrifol lefelau'r cyllidebau sy'n weddill ynghyd â'r symiau ym mhob un o'r cyfrifon banc. Gan ragweld y byddai'r praesept yn cael ei ddarparu ym mis Rhagfyr 2026, gofynnodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol am farn ynghylch sut yr oedd cynghorwyr yn dymuno gwario cyllidebau a sut y dylai'r Swyddog Ariannol Cyfrifol gyflwyno gwariant. Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, cytunodd y cynghorwyr y dylid darparu adroddiad cyllidebu misol ac y byddai unrhyw awgrymiadau/gwelliannau yn cael eu cyflwyno'n uniongyrchol i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol. Yn ogystal, cynigiodd y cynghorwyr y dylid

Mumbles Community Council

	darparu eglurhad pellach mewn perthynas â cheisiadau am grantiau a'u cymeradwyo. PENDERFYNWYD: Y Swyddog Ariannol Cyfrifol i dderbyn gwybodaeth gan gynghorwyr am y ffordd orau o gyflwyno adroddiadau cyllidebu mewn cyfarfodydd pwyllgor misol. Yn ogystal, y Swyddog Ariannol Cyfrifol i geisio eglurhad pellach ar faterion sy'n gysylltiedig â chyllid grant.
FI2610-06	**Cyllideb 2026/2027** Roedd yr eitem hon wedi'i chyfuno â'r eitem flaenorol ar yr agenda (**FI2610-05**)
FI2610-07	**Cais am grant gan gwmni buddiant cymunedol Elev8 Dawns** Cais am grant o £5,000 i gyfrannu at ddigwyddiad llesiant Roedd y pwyllgor yn cefnogi'r nodau a gynhwysir yn y cais. Nodwyd bod y sgôr o 10 yn gymharol isel ar gyfer cais llwyddiannus. Yn ogystal, er y byddai amser yr ymgeiswyr yn cyfrannu at y prosiect, nid oedd unrhyw gyfraniad ariannol at y digwyddiad. Cyn gwneud argymhelliad ar y cais, gofynnodd y cynghorwyr am ragor o wybodaeth yn y meysydd a nodir isod:- • Lleoliad neu leoliadau ar gyfer y digwyddiad. • Os yw'r digwyddiad wedi'i ganoli, pa ddarpariaeth sydd wedi'i gwneud i gyfranogwyr llai anabl fynychu. • Sut mae cyfranogwyr yn cael eu recriwtio. • A oedd unrhyw gysylltiad â Gŵyl Llesiant diweddar Cyngor Cymuned y Mwmbwls. • A ragwelir unrhyw gyfranogiad yn y dyfodol mewn gwyliau tebyg. • Sut mae cyllideb y digwyddiad yn cael ei gwario/gofynnwyd am ddadansoddiad o'r gwariant. **CAM GWEITHREDU**: Bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol/Dirprwy yn gofyn am yr wybodaeth uchod gan yr ymgeisydd **PENDERFYNWYD** Oedi'r cais nes bod yr ymholiadau uchod wedi cael sylw gan yr ymgeisydd
- FI261008	**Cais am grant gan Shelter Cymru** Cais am grant o £500 i gyfrannu at helpu pobl y mae angen tai arnynt

Mumbles Community Council

	Nododd y pwyllgor fod ceisiadau blaenorol wedi dod i law yn 1996, 2008 a 2015. Er bod y cais yn nodi y byddai dau deulu yn y Mwmbwls yn elwa, roedd y pwyllgor o'r farn bod diffyg gwybodaeth a diffyg manylion ynghylch sut y byddai'r arian a ddyrannwyd o fudd i'r derbynwyr. Fodd bynnag, roedd y cynghorwyr yn cefnogi'r amcanion a oedd wedi'u cynnwys yn y cais a nodwyd cost gymharol isel y cais. **ARGYMHELLWYD** Bod cais am grant i Shelter Cymru am £500 yn cael ei ddyfarnu i gyfrannu at helpu pobl sydd angen tai, ar yr amod bod yr ymgeisydd yn rhoi adborth ar sut y gwariwyd yr arian. Byddai methu â gwneud hynny yn peryglu ceisiadau am gyllid yn y dyfodol. O **gyllideb FC1** Grantiau Bach a Chanolig.
FI2610-09	**Cais am grant gan Stori'r Mwmbwls** Cais am grant o £3,500 i gyfrannu at gostau coffáu 80 mlynedd ers Trychineb Samtampa Yn ystod y drafodaeth rhwng y cynghorwyr, nodwyd bod gwobrau eraill wedi'u cymeradwyo i goffáu 80 mlynedd ers Trychineb Samtampa. Fodd bynnag, roedd y pwyllgor yn cytuno bod coffáu Trychineb Samtampa yn ddigwyddiad arwyddocaol a byddai trigolion Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn disgwyl i Gyngor Cymuned y Mwmbwls gefnogi'r cais a fydd, yn wahanol i geisiadau cynharach, yn cefnogi cymunedau lleol, yn enwedig ysgolion, i gydnabod pwysigrwydd y digwyddiad. **ARGYMHELLWYD** Bod cais am grant o £3,500 i Stori'r Mwmbwls yn cael ei ddyfarnu i goffáu 80 mlynedd ers trychineb Samtampa. O **gyllideb FC1** Grantiau Bach a Chanolig.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.11pm

Y cyfarfod nesaf: 16 Tachwedd 2026